Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

# CYNGOR CAERDYDD

## DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## YSGOL UWCHRADD WOODLANDS

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod Cyngor Caerdydd ("yr Awdurdod"), ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn cynnig newid Ysgol Uwchradd Woodlands, Vincent Road, Caerau, Caerdydd, CF5 5AQ fel a ganlyn:

- cynyddu capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands o 240 i 300 o leoedd. Byddai'r ysgol ar draws dau safle gan gynnwys safle campws y Tyllgoed a safle campws presennol Vincent Road. Byddai capasiti'r ysgol yn cael ei gynyddu ymhellach i 360 o leoedd o fis Medi 2032 ar ôl cwblhau'r adeilad newydd ar safle campws Vincent Road.

Cynigir gweithredu'r cynnig o fis Ionawr 2027.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion ac ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn ar y newid arfaethedig ar gael i'w weld yma:

Agenda Cabinet ar Dydd Iau, 28ain Mai, 2026, 2.00 pm : Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)

Ar hyn o bryd, capasiti'r ysgol yw 180 o leoedd ar gyfer plant 11-19 oed. Bydd y capasiti'n cynyddu i 240 o leoedd pan fydd y gwaith wedi gorffen ar y llety newydd a phan fydd yr ysgol yn symud i'w safle newydd ar safle Gampws Cymunedol y Tyllgoed yn mis Medi 2026. Nifer cyfredol y disgyblion yn yr ysgol yw 182.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Rheolir derbyniadau i'r ysgol gan yr awdurdod lleol, yn amodol ar Gynllun Datblygu Unigol (CDU).

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

O fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 13 Gorffennaf 2026, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Nodwch fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig 16 Mehefin 2026

Llofnod: Debbie Marles
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Mae Ysgol Uwchradd Woodlands yn ysgol arbennig yn Vincent Road, Caerau. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o bob rhan o'r awdurdod.

Mae'r ysgol wedi'i dynodi ar gyfer hyd at 180 o leoedd i ddisgyblion 11 - 19 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth a/neu awtistiaeth.

Ymgynghorodd y Cyngor ym mis Chwefror/Mawrth 2019 ar gynnig i gynyddu capasiti'r ysgol o 140 i 240 o leoedd o fis Medi 2023, trwy adleoli'r ysgol i gyfleusterau pwrpasol newydd mwy o faint ar safle Ysgol Uwchradd Cantonian. Penderfynwyd ar y cynnig gan Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2020. Penderfynwyd fod y cynnig, fel y cytunwyd arno gan Weinidogion Cymru, i'w weithredu ym mis Medi 2023. Fodd bynnag, cafodd pandemig COVID-19, ynghyd â materion gweithredol a'r angen i wneud o gorau o gyfluniad y safle a dyluniad yr adeiladau ar gyfer dysgwyr, effaith sylweddol ar gynnydd y cynigion a arweiniodd at oedi'r gwaith arfaethedig. Er mwyn sicrhau bod digon o leoedd addas yn cael eu darparu yn y cyfnod dros dro, cytunwyd bod capasiti Ysgol Uwchradd Woodlands yn cynyddu o 140 i 180 o leoedd

Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn:(029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel:(029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

ym mis Medi 2023, cyn yr ehangu parhaol i 240 o leoedd pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, a'r ysgol yn trosglwyddo i'w

hadeiladau newydd ar safle Campws Cymunedol y Tyllgoed; y lleoedd ychwanegol i'w darparu trwy ddefnyddio adeilad dros dro newydd ar safle presennol yr ysgol. Bydd yr ysgol yn trosglwyddo i'r safle newydd ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed, Y Tyllgoed o fis Medi 2026.

Er mwyn ateb y galw am ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr oedran uwchradd sydd ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir cynyddu'r nifer o lleoedd dynodedig o Ysgol Uwchradd Woodlands o 240 i 300 o fis Ionawr 2027.

Yn ogystal â'r cynnig i Ysgol Uwchradd Woodlands, mae ehangiadau arfaethedig i Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn sy'n darparu lleoedd Anghenion Dysgu Cymhleth i ddisgyblion oedran cynradd ac uwchradd ac Ysgol Arbennig Meadowbank sy'n darparu lleoedd Anghenion Dysgu Cymhleth i ddisgyblion oedran cynradd hefyd yn cael eu datblygu. Mae cynigion i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth i ddisgyblion oedran cynradd yn Ysgol Gynradd Adamsdown, Ysgol Gynradd Pencaerau ac Ysgol Gynradd Peter Lea yn cael eu datblygu.

Mewn perthynas ag Anghenion Awtistiaeth/Cyfathrebu Cymdeithasol, mae cynigion i sefydlu darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn Ysgol Gynradd Hywel Dda, Ysgol Gynradd Radnor a darpariaeth canolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa yn cael eu datblygu. Ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, mae cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Uwchradd Fitzalan a chanolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern yn cael eu datblygu.

Mewn perthynas ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol, mae cynigion i sefydlu canolfan adnoddau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac i gynyddu'r nifer dynodedig o leoedd ar ddarpariaeth canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer disgyblion oedran cynradd yn Ysgol Gynradd Baden Powell ac Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn cael eu datblygu. Mae ehangiad arfaethedig Ysgol Arbennig Greenhill, sy'n darparu lleoedd Iechyd a Lles Emosiynol i ddisgyblion oedran uwchradd hefyd yn cael ei ddatblygu.

Gellir gweld manylion y cynigion hyn a chopïau o'r hysbysiadau statudol yn:

Cynigion ac Ymgynghoriadau (caerdydd.gov.uk)